

# DOLEN Y TAB 126

21 / 22 Hydref 2022

## Oedfa Sul 23 Hydref am 11

Oedfa yng ngofal Dafydd a Lowri Roberts  
ac Alun Wyn Bevan gyda Rhiannon yn cyfeilio

---

### YR OEDFAON NESAF

#### Hydref

- 30** Y Parchedig Gethin Rhys gydag Ann Price yn llywyddu.

#### Tachwedd

- 6** Y Parchedig Robin Samuel
- 13** Y Parchedig Aled Edwards
- 20** Sul Diogelu dan arweiniad Emlyn Davies Cyfle i ddangos ein bod fel cymuned yn gwneud ymdrech arbennig i ddiogelu ein plant a'n hoedolion bregus. Bydd eitemau gan yr Ysgol Sul a'r Twmiaid, a dangosir fideo newydd ar gyfer yr achlysur.

---

### Hefyd ddydd Sul 23 Hydref

#### 12.00 Radio Cymru

Oedfa dan arweiniad Analyn Davies, Sanclêr.

#### 12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

#### 19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Addoldai'r Arfordir

Lisa fydd ym Mro Ardudwy yn ymweld ag Eglwys Llandanwg, yr eglwys yn y tywod, a Nia fydd yn Sir Fôn yn rhyfeddu at eglwys hollol unigryw.

#### E-fwletin Cristnogaeth 21

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## Dymuniadau Gorau

Dymunwn wellhad buan i Mike West sydd wedi bod yn anhwylyd ers rhai wythnosau. Yn y cyfamser, mae ein diolch yn fawr i'r criw boreau lau, sef Edwyn, Eleri Mai, John Llew, 'Pens' a Rhian am ofalu am agor, cau a gwresogi'r capel a'r ganolfan yn ei absenoldeb.

Pob dymuniad da hefyd i Glenys Roberts a dderbyniodd driniaeth i'w llygad yn ystod yr wythnos ac i Mal Pate sy'n dal i wella wedi iddo dderbyn llawdriniaeth ddiwedd yr haf.




**DILLAD PLANT!**  
Ni'n casglu dillad plant ar gyfer elusennau lleol

Pob math o ddillad - 10-18 oed  
Dillad glaw, cotiau cynnes  
a wellies - 4 - 18 oed

Mi fydd y Capel neu'r Ganolfan ar agor  
yn ystod y bore coffi Dydd Mawrth,  
Gwasnaethau Dydd Sul, ynghyd a Bore lau a  
Sadwrn

**Casglu trwy mis Hydref!**



**CYFUNDEB  
DWYRAIN MORGANNWG**

**Cwrdd Chwarter**

**Anerchiad Llywydd yr Undeb  
Y Parchedig Beti-Wyn James,  
Caerfyrddin**

7.30 Nos Fercher 26 Hydref  
Capel Minny Street, Caerdydd CF24 4ER

**CROESO CYNNES I BAWB**

## Enwebu Cyfarwyddwyr / Ymddiriedolwyr Newydd

Aeth dros bymtheng mlynedd heibio ers i'r eglwys benderfynu cofrestru fel cwmni elusennol a derbyn y gofynion statudol i lunio Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad, cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyflwyno adroddiad blynyddol i Dŷ'r Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau.

Fel rhan o'r newidiadau cyfansoddiadol hyn caiff yr eglwys ei rheoli gan Fwrdd Cyfarwyddwyr neu Ymddiriedolwyr. Wedi i unigolyn dderbyn enwebiad i'w benodi'n aelod o'r Bwrdd, ac i'r enwebiad hwnnw gael ei gadarnhau mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd yr aelod yn gwasanaethu am dymor penodol o dair blynedd. Gan fod tymor traean o'r aelodau yn dod i ben ym mhob Cyfarfod Blynyddol mae modd sicrhau chwistrelliad o waed newydd yn aelodaeth y Bwrdd yn flynyddol.

Eleni bydd tymor Geraint Wyn Davies, Edwyn Evans, Eleri Jones, Gwenfil Thomas a Nia Williams yn dod i ben yn y cwrdd blynyddol ddiwedd Tachwedd. Felly rydym yn chwilio am BUMP o enwau newydd i lenwi'r bwlch ar eu hôl.

Dyddiad cau derbyn enwebiadau i'r Bwrdd yw dydd Llun 14 Tachwedd. Fe anfonir copi digidol o'r ffurflen i gyfrif e-bost pob aelod dros y dyddiau nesaf, a hefyd gellir casglu copiâu caled o'r ffurflen enwebu oddi ar yr hysbysfyrdau yng nghyntedd y capel.



**PANED A CHLONC**  
Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol  
**CUPPA AND A CHAT**  
Come for a friendly and relaxed chat

Bob Dydd Mawrth  
Every Tuesday  
10.30-12.00

Y Ganolfan  
Capel Tabernacl  
The Vestry,  
Tabernacl Chapel

Capel y Tabernacl Cyf.

## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bore Sul 27 Tachwedd 2022



### CYLCH CADWGAN

Nos Wener 28 Hydref  
am 8yh

### Noson yng nghwmni Delwyn Siôn

Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth  
Croeso cynnes i bawb

*Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru*



## BABI TWM



Y Ganolfan,  
Capel Tabernacl

10.00-11.30



26/09/22, 10/10/22, 24/10/22  
07/11/22



Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i  
plant/wyrion/wyresau

## Llogi'r Capel / Ganolfan

E-bostiwrch

gehpengwern@yahoo.co.uk

Neges Testun

07710 237327

Ffonio

01433 225205

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)